# HYFFORDDIANT GWAITH IEUENCTID



# LLAWLYFR GORUCHWYLWYR GWAITH MAES

**2003/2004**

# C YNNWYS

| | Tudalen |
|---|---|
| Pwrpas Goruchwylio mewn Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid | 3 |
| Manylion y Cwrs | 3 |
| Manylion Sesiynau Dysgu mewn Grwpiau | 3 |
| Ymarfer Gwaith Ieuenctid | 4 |
| Trefniadau Goruchwylio | 4 |
| Rôl y Goruchwylydd Gwaith Maes | 4 |
| Sesiynau Goruchwylio | 5 |
| Gweithdrefnau Asesu | 6 |
| Cyfleodd Hyfforddi mewn Goruchwylio Gwaith Maes | 6 |
| Cyswllt gyda'r Coleg Staff | 6 |

## MYFYRWYR DAN ORUCHWYLIAETH GWAITH MAES YN DILYN HYFFORDDIANT YMARFERWYR MEWN GWAITH IEUENCTID

### Pwrpas Goruchwyliaeth mewn Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid

Mae ymarfer gwaith maes yn rhan hanfodol ac anhepgor o'r rhaglen hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid. Mae hyn wir am bob lefel, o'r rhagarweiniol, canolradd a mynediad, ymlaen i gyrsiau Addysg Uwch. Y nod yw i fyfyrwyr wybod a deall mwy am faterion mewn perthynas â gwaith ieuenctid, tra'n ymarfer y sgiliau hyn drwy weithio gyda phobl ifanc. Yn ystod y cyfnod ymarfer hwn bydd profiad a sgiliau'r myfyrwyr wrth weithio gyda phobl ifanc yn cynyddu a bydd hyn yn ei dro yn ychwanegu at eu gallu i ymwneud â'r elfennau damcaniaethol yn y cwrs ac elwa arnynt.

Er mwyn i fyfyrwyr gwaith ieuenctid elwa i'r eithaf o'u hymarfer gwaith maes ac felly o'r cwrs cyfan, mae'n hollbwysig iddynt dderbyn goruchwyliaeth a chymorth effeithiol. Dylai goruchwyliaeth roi cyfle i'r myfyrwyr rannu'r broses o ffocysu ar bwrpas ac arfer eu gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc yng nghwmni gweithiwr ieuenctid profiadol. Bydd hyn yn cynnwys meddwl am y materion sy'n codi yn ymarferol, cysylltu theori ag arfer a myfyrio ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u datblygiad proffesiynol. Dylai'r broses hon ategu gwaith dysgu'r myfyrwyr gan ychwanegu at eu hyder a'u mwynhad a'u dealltwriaeth o waith ieuenctid.

### Manylion y Cwrs

Mae'r Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr mewn Gwaith Ieuenctid ar lefel 4 ac yn gyfwerth â chwrs Sylfaen mewn Gwaith Ieuenctid. Datblygwyd y cwrs i fod yn un ymarferol sy'n addas i weithwyr ieuenctid sydd am barhau i dderbyn hyfforddiant mewn arferion a sgiliau yn bennaf, a hefyd i rai sydd am fynd ymlaen mewn Addysg Uwch gyda'r Dystysgrif, y Diploma a'r Radd.

Darperir y cwrs dros 12 sesiwn 3 awr o waith addysgu a grwpiau ynghyd â 45 awr o ymarfer gwaith ieuenctid. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn treulio rhyw 100 awr yn ychwanegol gyda thasgau sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

### Sesiynau Dysgu mewn Grwpiau

Bwriad y sesiynau dysgu mewn grwpiau, sy'n cynnwys darpariaeth gan diwtoriaid, gweithdai a gweithgareddau cyfranogol, yw dysgu'r hanfodion mewn gwaith ieuenctid sy'n berthnasol i ddyletswyddau gweithwyr a gwirfoddolwyr a all weithio'n annibynnol ac sydd efallai â rhywfaint o gyfrifoldeb am staff eraill. Mae'r cwrs yn cynnwys:-

- dysgu annibynnol
- deall pobl ifanc/ datblygiad yr adolesent/diwylliant ieuenctid
- y gymuned, tueddiadau cyfoes, eu harwyddocâd i bobl ifanc ac i fudiadau ieuenctid
- y gwasanaeth ieuenctid, eu hanes, pwrpas, rheolaeth, gwaith a materion cyfoes
- gwaith mewn grwpiau, cyfathrebu, datblygiad cymdeithasol a phersonol
- cynllunio a darparu rhaglenni, gwahanol fathau o waith ieuenctid
- materion moesegol a phroffesiynol

## Ymarfer Gwaith Ieuenctid

Fel rhan o'r cwrs bydd myfyrwyr yn ymgymryd â 45 awr o waith gyda phobl ifanc mewn cyd-destun gwaith ieuenctid neu waith cymuned. Fel rhan annatod o'r ymarfer hwn bydd myfyrwyr yn cyflawni gwahanol dasgau a fydd yn rhan o'u Ffeiliau Ymarfer, sef:-

1. Hunan bortread mewn geiriau
2. Proffil cymunedol bras yn cynnwys adroddiad byr ar yr asiantaeth sy' cynnig lle
3. Astudiaeth achos o berson ifanc
4. Rhaglen enghreifftiol 12 wythnos ac adroddiad ar gynllunio a darparu gweithgaredd cwricwlaidd gan ddefnyddio model y cytunwyd arno
5. Cofnodion dyddiadur i ategu Cofnod Myfyriol Macro o'r lleoliad
6. Cofnodion o ddau ymweliad arsylwi
7. Asesiad gan y Goruchwylydd Gwaith Maes o ymarfer y myfyriwr.

## Trefniadau Goruchwylio

Fel rhan o'r rhaglen, gofynnir i'r myfyriwr adnabod gweithiwr ieuenctid profiadol y tu mewn i'w sefydliad ymarfer, neu weithiwr ieuenctid o'r tu allan i'r sefydliad a all gwrdd â'r myfyriwr yn rheolaidd er mwyn cynnig sesiynau goruchwylio a chynorthwyo. Yn ddelfrydol dylai'r rhain ddigwydd bob pythefnos am awr, ond dylent gael eu cynnal unwaith y mis fan leiaf. Unwaith y bydd enw Goruchwylydd Gwaith Maes posibl ar gael bydd Cydlynydd Lleoliadau'r Coleg Staff yn cysylltu â'r Goruchwylydd, gan yrru'r llyfryn hwn a threfnu cyfarfod rhwng y myfyriwr, y Goruchwylydd Gwaith Maes a Thiwtor Ymweld y Coleg Staff. Dylai'r cyfarfod hwn gael ei gynnal mor gynnar yn ystod y cyfnod ymarfer â phosibl a dylai pawb fod yn fodlon ar y trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ymarfer gwaith ieuenctid a'r oruchwyliaeth. Y cytundeb hwn fydd sylfaen y contract gwaith maes. Trefnir cyfarfod tair ffordd arall tua hanner ffordd drwy'r cyfnod ymarfer er mwyn adolygu'r sefyllfa. Gall y myfyriwr a'r Goruchwylydd Gwaith Maes ill dau gysylltu â Thiwtor Ymweld neu Gydlynydd Lleoliadau'r Coleg Staff ar unrhyw adeg, i dderbyn gwybodaeth neu gymorth.

## Rôl y Goruchwylydd Gwaith Maes

Mae rôl y Goruchwylydd Gwaith Maes yn hanfodol bwysig o ran ategu dysgu, gwybodaeth, sgiliau a datblygiad proffesiynol myfyrwyr yn ystod eu hymarfer gwaith maes. Mae'r Goruchwylydd yn chwarae rôl bwysig iawn o ran annog gweithwyr ieuenctid i fyfyrio am bob agwedd ar eu gwaith gyda phobl ifanc; o ran adnabod dysgu yn y sesiynau mewn grwpiau a sut mae hyn yn cysylltu ag ymarfer a bod yn ymwybodol o ddatblygiad proffesiynol. Dylai;'r ffocws fod yn bendant ar y myfyriwr, gyda'r Goruchwylydd Gwaith Maes yn annog y myfyriwr i feddwl yn glir, i fyfyrio ac i fod yn gyfrifol am ddysgu annibynnol. Gall rôl y Goruchwylydd Gwaith Maes, sy'n debyg i rôl mentor neu gwnsler, gynnwys cynorthwyo, annog a chanolbwyntio yn ogystal â herio. Mae'n cynnwys asesu hefyd. Ar ddiwedd y cyfnod ymarfer gofynni'r i'r Goruchwylydd Gwaith Maes lenwi ffurflen asesu am gymhwysedd y myfyriwr yn ystod yr ymarfer gwaith maes.

Mae rôl y Goruchwylydd Gwaith Maes yn cynnwys:-

- Cynorthwyo'r myfyriwr i ddysgu
- Adnabod a defnyddio cyfleodd i addysgu
- Helpu'r myfyriwr i ddefnyddio'r dyddiadur myfyriol i ddatblygu ymarfer gwaith ieuenctid a gwneud cynnydd fel gweithiwr effeithiol a phroffesiynol.

- Helpu’r myfyriwr i adnabod ac ategu cryfderau gan weithio i osgoi gwendidau.
- Helpu’r myfyriwr i gymhwyso theori’r cwrs at ymarfer gwaith ieuenctid ac fel arall.
- Cadw mewn cysylltiad â Thiwtor y Coleg Staff
- Darparu asesiad ffurfiannol a therfynol o'r myfyriwr.

## Sesiynau Goruchwylio

Nid yw'r Coleg Staff am osod y ddeddf i lawr ynglŷn â phatrwm a threfn y sesiynau goruchwylio, ond gallai’r canlynol fod yn ddefnyddiol i'r Goruchwylydd a’r myfyriwr.

- Dylid cynnal y sesiynau goruchwylio mewn rhywle cyfforddus, tawel, lle na fydd neb na dim yn tarfu ar y Goruchwylydd a’r myfyriwr, gan gynnwys y ffôn. Dylai'r sesiynau fod yn ddigon hir i'r ddau deimlo y gallant drafod popeth yn foddhaol.

- Dylid cynnal y cyfarfod cyntaf rhwng y myfyriwr a’r Goruchwylydd Gwaith Maes cyn gynted â phosibl. Yn ddelfrydol byddai Tiwtor Ymweliadau Ymarfer o’r Coleg Staff yn mynychu'r cyfarfod hwn, ond ni ddylid oedi os ceir trafferth i Diwtor fynychu. Mae’r cyfarfod yn debyg o drafod materion contractol yn ymwneud â’r canlynol:-

  - Amserlen arfaethedig cyfnod ymarfer y myfyriwr.
  - Rhaglen gyffredinol ar gyfer y cwrs, tasgau a chanlyniadau dysgu.
  - Amserlen dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio, eu lleoliad a’u hyd.
  - Disgwyliadau’r myfyriwr a’r Goruchwylydd Gwaith Maes ar gyfer y cyfarfodydd goruchwylio.
  - Dylid cynnwys cytundeb y bydd y myfyriwr yn dod â’i ffeil ymarfer i bob cyfarfod, gan baratoi at y cyfarfod a darparu'r deunydd sydd i gael ei drafod.
  - Materion cyfrinachedd, agendâu’r dyfodol, contractau dros dro.
  - Unrhyw faterion eraill i greu perthynas effeithiol yn y gweithle.

Dylai’r contract gael ei lofnodi gan y myfyriwr, y Goruchwylydd Gwaith Maes a’r Tiwtor os bydd yn bresennol, neu gellir anfon copi at yr olaf.

- Dylid cynnal cyfarfodydd goruchwylio wedi hynny yn unol â’r cynllun. Gellir pennu agenda pob un yn unol â’r contract, gan gytuno ar ddiwygiadau ar ddechrau pob sesiwn.

Dylai'r agenda gynnwys:-

- Dialog rhagarweiniol cyffredinol i drafod sut mae pethau’n mynd, i gytuno ar yr agenda
- Drafod ymarfer gwaith ieuenctid y myfyriwr, ynghyd â’r dyddiadur myfyriol
- Unrhyw faterion yn codi o hyn gan ystyried goblygiadau ehangach, ystyriaethau moesegol/proffesiynol, cryfderau/gwendidau, a’r hyn y bydd y myfyriwr yn ei wneud yn y dyfodol
- Yr hyn a ddysgodd y myfyriwr o’r sesiynau addysgu/dysgu mewn grwpiau a sut y gall ddefnyddio hyn i ddatblygu'r ymarfer
- Unrhyw faterion perthnasol yn codi o ddigwyddiadau cyfoes, cyhoeddiadau, gwaith darllen gan y myfyriwr neu’r Goruchwylydd
- Unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer y sesiwn goruchwylio nesaf ac yn y cyfamser.

- Dylai'r myfyriwr gofnodi cynnwys y sesiwn, gan ddefnyddio ffurflen y Coleg Staff, os dymunir, a geir yn y Ffurflenni Gweinyddu Gwaith Maes, os dymunir, neu gofnod arall, wedi ei lofnodi gan y myfyriwr a'r Goruchwylydd Gwaith Maes.

## Trefniadau Asesu

Tua diwedd y cwrs, gofynnir i'r Goruchwylydd Gwaith Maes lenwi'r **Adroddiad Asesu Gwaith Maes Terfynol -** gan argymell:-

- llwyddo
- ail-wneud neu
- fethu

Gellir gweld yr adroddiad hwn yng nghefn y llyfryn **Ffurflenni Gweinyddu Gwaith Maes**, a gedwir gan y myfyriwr. Rhaid i hwn fod yn barod i'r myfyriwr ei gyflwyno gyda'r Ffeil Ymarfer ar ddiwedd y cwrs.

Os oes gan y Goruchwylydd Gwaith Maes unrhyw bryderon am gymhwysedd y myfyriwr neu unrhyw agwedd arall ar yr ymarfer, dylai gysylltu â'r Coleg Staff yn ystod y cwrs fel y gellir datrys y mater.

## Cyfleoedd Hyfforddi mewn Goruchwylio Gwaith Maes

Mae'r Coleg Staff yn cynnig sawl cyfle i fyfyrwyr gwaith ieuenctid dderbyn hyfforddiant os ydynt am oruchwylio myfyrwyr neu weithwyr ieuenctid yn y gweithle. Rydym yn gobeithio y bydd yr holl Oruchwylwyr Gwaith Maes sydd heb gymhwyster cyfredol mewn goruchwylio yn dilyn uned Sgiliau Goruchwylio a Chynorthwyo'r Coleg Staff sydd ar RhCA lefel 3 ac a gymeradwyir yn broffesiynol gan y pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant. Ceir manylion am y cyrsiau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gyda'r llyfryn hwn, neu gellir gofyn amdanynt gan y Coleg Staff.

## Rhagor o Wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater yn ymwneud â Goruchwylio Gwaith Maes ac ymarfer gwaith maes myfyrwyr oddi wrth:-


**Mary Nicholls, Cydlynydd Lleoliadau,**
Coleg Staff, Lôn-y-Llyn, Caerffili, CF83 1BQ.
Llinell Uniongyrchol:- 029 20855725 E-bost: mary.nicholls@wya.org.uk